GIG CYMRU
NHS WALES

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Crynodeb Gweithredol
# **Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio**

## Iechyd Cyhoeddus Cymru
## 2022-2024




Dyddiad: Mawrth 31ain 2022

# Crynodeb Gweithredol Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Mae Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflwyno'r camau gweithredu a strategaeth allweddol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, sy'n cefnogi ein taith i fod yn Sero Net erbyn 2030. Mae'r cynllun yn nodi'r camau gweithredu y gellir eu cyflawni mewn dwy flynedd o fis Ebrill 2022 hyd at fis Mawrth 2024, gan gefnogi a chyd-fynd â Chynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru.**

Mae gan y Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio hwn ddull gweithredu ar sail thema, ac sy'n nodi'r camau gweithredu o dan bum pennawd gweithgaredd:

- Rheoli Carbon
- Adeiladau, Cynllunio Ystadau a Defnydd o Dir
- Trafnidiaeth a Theithio
- Caffaeliad
- Agweddau at Ofal Iechyd a Chyflenwi Gwasanaethau

Er mwyn cyflawni Sero Net bydd angen i ni graffu ar bob un o'n gweithgareddau a chymryd camau priodol i leihau allyriadau wrth gyflenwi gwasanaethau, adeiladau, trafnidiaeth, gwastraff a chaffaeliad, gan **ymgorffori datgarboneiddio ar bob lefel wrth wneud penderfyniadau**.


Mae'r Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio hwn yn nodi pwysigrwydd rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru fel **Asiantaeth Iechyd y Cyhoedd Genedlaethol yng Nghymru,** sy'n cydweithio â byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd eraill i gyflawni dull gweithredu 'Cymru Gyfan' i leihau allyriadau. Mae'n hysbys iawn bod **cysylltiad arwyddocaol rhwng effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac iechyd a llesiant pobl.** Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi datgan mai'r **newid yn yr hinsawdd yw'r bygythiad mwyaf sylweddol i iechyd y ddynoliaeth ar raddfa fyd-eang.** Bydd lleihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr a gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd yn helpu i gyflwyno gwelliannau uniongyrchol i iechyd y cyhoedd ac i gydraddoldeb iechyd.



Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** a **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** wedi'u hymgorffori yn y gwaith o ddatblygu'r cynllun hwn, ac **mae angen eu hystyried ym mhob cam gweithredu wrth gyflawni'r cynllun hwn.**

**Penderfynwyd mai cyfanswm ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr a gyfrifwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20 oedd 12.6[1] miliwn cilogram o $CO_2$e, ac maent yn cynnwys allyriadau uniongyrchol ac anuniongyrchol:**

- **Allyriadau uniongyrchol:** 1.1 miliwn cilogram o CO2e ar gyfer 2019/20, yw'r allyriadau o ffynonellau yr ydym ni'n berchen arnynt neu'n eu rheoli, ac maent yn cynrychioli'r rhai y mae gennym y rheolaeth fwyaf drostynt, gan gynnwys cyfleustodau, fflyd cerbydau a theithio busnes
- **Allyriadau anuniongyrchol:** 11.5 miliwn cilogram o CO2e ar gyfer 2019/20 yw'r allyriadau sy'n ganlyniad ein gweithgareddau o ffynonellau yr ydym ni'n berchen arnynt neu'n eu rheoli, gan gynnwys caffael nwyddau a gwasanaethau, sy'n cynrychioli 91% o gyfanswm ein hallyriadau




Rhai o'r meysydd allweddol lle gallwn gyflawni **gostyngiadau sylweddol mewn allyriadau** yw:



**Adeiladau a Chynllunio Ystadau** (**23.8%** o'n hallyriadau uniongyrchol) - bydd lleihau allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr o'n safleoedd yn cynnwys cynllunio ystadau yn effeithiol yn ogystal ag arloesedd technegol



**Teithio a Thrafnidiaeth** (**76.2%** o'n hallyriadau uniongyrchol, gyda **39.8%** o deithio busnes) – bydd hyn yn galw am gefnogaeth staff i fabwysiadau dulliau teithio cynaliadwy, yn ogystal ag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu cymhellion er mwyn helpu i newid i gerbydau trydan/ hybrid.

Rydym wedi cyflawni nifer o brosiectau llwyddiannus hyd yma, gan gynnwys **cyfnewid goleuadau gyda rhai LED, gosod mannau gwefru ceir trydan, datblygu adnoddau addysgol** i gefnogi newid ymddygiad a sefydlu **Eiriolwyr Gwyrdd**, rhwydwaith staff mewnol ar gyfer datblygu cynaliadwy. Rydym hefyd wedi llofnodi **Siarter Teithio Llesol Caerdydd** ac wedi ymrwymo i fod yn **'ddi-blastig' erbyn 2023**, camau gweithredu allweddol i arddangos ymrwymiad i leihau allyriadau.

Lansiodd ein **His-adran Gofal Sylfaenol Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru** yn ystod gwanwyn 2022, i gefnogi contractwyr gofal sylfaenol annibynnol i gymryd camau i ymateb i'r argyfwng hinsawdd.

Rydym yn datblygu **Bwrdd Rhaglen Newid Hinsawdd** i ddarparu cyfeiriad a llywodraethu strategol ar gyfer y gwaith hwn a sicrhau bod gennym agwedd gydgysylltiedig at newid hinsawdd.



1 Mae'r ffigur hwn yn darparu ein llinell sylfaen fydd yn llywio'r gwaith o bennu targedau a monitro cynnydd

Mae'n bwysig iawn pwysleisio nad yw'r Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio yn gynllun ar gyfer Ystadau a Chyfleusterau neu'r Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd yn unig, ond ei fod yn gynllun **ar gyfer pob aelod o staff** yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r holl gamau gweithredu a nodir yn y cynllun hwn yn gofyn i **bob cyfarwyddiaeth a maes gwasanaeth gefnogi a chyflawni'r camau gweithredu** i leihau allyriadau carbon, cefnogi newid ymddygiad a lleihau ein heffaith yn weithredol ar y newid yn yr hinsawdd.

**Ni ellir mesur y mwyafrif helaeth o'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun hwn ond maent yn debygol o gyfrannu at leihau allyriadau, yn y tymor byr neu yn y dyfodol.** Hefyd, mae yna nifer o gamau gweithredu sy'n canolbwyntio ar gynnal adolygiadau i gefnogi'r camau nesaf ac mae'n hollbwysig i'r cynllun hwn esblygu wrth i'r adolygiadau hyn gael eu cwblhau, a bod camau gweithredu'n cael eu cymeradwyo a'u datblygu.

Mae'n rhaid i gyllidebau a gwariant cyfalaf gyd-fynd â'r agenda ddatgarboneiddio. Mae goblygiadau ariannol wedi'u nodi ar gyfer rhai o'r camau gweithredu, ond ni ddyrannwyd unrhyw gostau.

Mae ein Cynllun Tymor Canolig Integredig yn dangos yn glir bod gennym **rôl fewnol i leihau allyriadau ar draws y sefydliad cyfan** ochr yn ochr â **rôl arwain systemau er mwyn llywio'r agenda newid yn yr hinsawdd yn ei blaen**. Mae'r Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio hwn yn ddogfen fyw fydd yn adweithio i newidiadau a dylanwadau mewnol ac allanol.

Er bod y camau gweithredu a nodwyd yn y cynllun hwn yn debygol o arwain at ostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, bydd angen i gynlluniau gweithredu datgarboneiddio yn y dyfodol **gynyddu'r lefel o uchelgais** a sicrhau bod **targedau strategol** ar waith i leihau allyriadau ymhellach yn y gofyniad o amserlen fer. Mae cryn ffordd i fynd cyn cyflwyni allyriadau sero net erbyn 2030; mae cytuno ar y Cynllun hwn yn gam cyntaf pwysig, ond mae'n rhaid i ni ganolbwyntio yn awr ar ei gyflawni.

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Rhif 2 Capital Quarter
Tyndall Stryd
Caerdydd, CF10 4BZ

Ffôn: 029 2022 7744
Ebost: general.enquiries@wales.nhs.uk